



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd:	Darlithydd mewn Awdioleg
Ysgol:	Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd
Lleoliad:	Campws Llandaf
Gradd:	7 A/B
Cyflog:	£38,833-£43,685 y flwyddyn pro rata
Oriau:	14.5 awr yr wythnos, 0.4 CALI
Daliadaeth:	Tymor Penodol

Crynodeb o'r Rôl:

Bydd deiliad y swydd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o reoli a chyflwyno'r cwrs Awdioleg o fewn Rhaglen MSc Ymarfer Uwch o ddydd i ddydd a bydd yn arwain ar fodiwl penodol sy'n gysylltiedig â Clyw ac Awdioleg o fewn y Rhaglen BSc (Anrh) Therapi Iaith a Lleferydd. Bydd deiliad y swydd hefyd yn gyfrifol am weinyddu'r cwrs Awdioleg, megis recriwtio, ac amserlennu, tiwtorialau personol, gwerthuso modiwlau ac adolygiad cyfnodol. Yn ogystal, bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gydweithio â chydweithwyr a chyfrannu at yr adran ymchwil sy'n canolbwyntio ar glyw iach a nam ar eu clyw.



PROFFIL Y RÔL

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Cymorth addysgu a dysgu

- Dylunio deunydd addysgu a chyflwyno naill ai ar draws ystod o fodiwlau neu o fewn maes pwnc mewn cyrsiau proffesiynol Israddedig ac Ôl-raddedig.
- Defnyddio dulliau addysgu, cymorth dysgu ac asesu priodol.
- Goruchwyllo myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig
- Nodi meysydd lle mae angen adolygu neu wella'r ddarpariaeth gyfredol.
- Cyfrannu at gynllunio, dylunio a datblygu amcanion a deunydd.
- Gosod, marcio ac asesu gwaith ac arholiadau a rhoi adborth i fyfyrwyr.

Ymchwil ac ysgolheictod

- Cydweithio gydag uwch gydweithwyr i gymryd rhan mewn neu arwain cynigion a phrosiectau ymchwil a/neu arloesi sydd â'r potensial i gynhyrchu incwm, i reoli cyflawni'r prosiectau, cyflawni allbynnau a sicrhau effaith.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid prifysgol i nodi ffynonellau cyllid ymchwil ac arwain y broses o sicrhau arian.
- Cymhwyso gwybodaeth a gafwyd o ymchwil ac arloesi ynghyd ag ysgolheictod i ddysgu ac addysgu, a gweithgareddau allanol priodol
- Ysgrifennu neu gyfrannu at gyhoeddiadau neu ledaenu canfyddiadau ymchwil gan ddefnyddio cyfryngau priodol eraill.
- Gwneud cyflwyniadau mewn cynadleddau academiaidd a/neu ymarferwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol neu arddangos gwaith mewn digwyddiadau priodol eraill.

Cyfathrebu

- Cyfleu syniadau cymhleth a chysyniadol yn rheolaidd.

Cyswllt a rhwydweithio

- Cymryd rhan mewn rhwydweithiau mewnol ac allanol a'u helpu i ddatblygu er budd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ym meysydd addysgu ac ymchwil.

Rheoli pobl

- Mentora cydweithwyr sydd â llai o brofiad a chynghor ar ddatblygiad personol.
- Yn dibynnu ar y maes gwaith, gellid disgwyl iddynt oruchwyllo gwaith pobl eraill.

Gwaith tîm

- Gweithredu fel aelod cyfrifol o'r tîm, gan arwain lle cytunir, a datblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol gydag aelodau eraill o staff.
- Cydweithio â chydweithwyr i nodi ac ymateb i anghenion myfyrwyr.
- Cyfrannu at gyfarfodydd a chynllunio sy'n gysylltiedig â'r rhaglen ac at ddyletswyddau gweinyddol o fewn y Ganolfan.

Gofal bugeiliol

- Gellid disgwyl iddynt weithredu fel tiwtor modiwl.
- Gweithredu fel tiwtor personol i fyfyrwyr ar y rhaglen Ôl-raddedig.

- I fod yn gyfrifol am ofal bugeiliol myfyrwyr o fewn ardal benodol.
- Delio â phroblemau safonol a helpu cydweithwyr i ddatrys eu pryderon ynghylch cynnydd mewn ymchwil.

Menter, datrys problemau a gwneud penderfyniadau

- Asesu, dehongli a gwerthuso canlyniadau ymchwil.
- Nodi'r angen i ddatblygu cynnwys neu strwythur modiwlau gyda chydweithwyr a gwneud cynigion ar sut y dylid cyflawni hyn.
- Datblygu syniadau sy'n hyrwyddo'r pwnc a/neu feysydd ymchwil.
e.e. datblygu syniadau a dod o hyd i ffyrdd o ledaenu a chymhwyso canlyniadau ymchwil ac ysgolheictod.
e.e. cyfrifoldeb am ddylunio a chyflwyno modiwlau a dulliau asesu eu hunain.
e.e. cydweithio â chydweithwyr ar weithredu gweithdrefnau asesu.
e.e. Cynghori eraill ar faterion strategol fel recriwtio a marchnata myfyrwyr.
e.e. Cyfrannu at achredu cyrsiau a phrosesau rheoli ansawdd.

Cynllunio a rheoli adnoddau

- Fel arweinydd modiwlau neu diwtor, cydlynu ag eraill (fel staff cymorth neu gydweithwyr academiaidd) i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau myfyrwyr yn cael eu diwallu.
- Rheoli prosiectau sy'n ymwneud â'ch maes gwaith eich hun.
- Cymryd rhan mewn datblygu syniadau ar gyfer cynhyrchu incwm.

Gofynion synhwyrdd, corfforol ac emosiynol.

- Cydbwysu pwysau addysgu a gofynion gweinyddol a therfynau amser sy'n cystadlu.

Amgylchedd gwaith

- Yng nghyd-destun polisi Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd, yn dibynnu ar faes gwaith a lefel yr hyfforddiant a dderbynnir, gellir disgwyl iddynt gynnal asesiad risg a chymryd cyfrifoldeb am iechyd a diogelwch eraill.

Arbenigedd

- Meddu ar ddigon o ehangder neu ddyfnder o wybodaeth arbenigol yn y ddisgyblaeth i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu.
- Defnyddio ystod o dechnegau cyflwyno.

Hysbysiad Safonol

Darperir y canllawiau hyn i'ch helpu i gyflawni eich contract. Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig; felly, efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir i'r Crynodeb o Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau fod yn rhestr gynhwysfawr o'r tasgau a gyflawnir. Mae tasgau technegol cysylltiedig eraill yn debygol o gael eu cyflawni yn unol â chyfarwyddyd y rheolwr llinell.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad a'u hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob cyflogai ddangos ei fod yn glynu wrth ein Cod Ymddygiad Proffesiynol. Dylai'r holl staff roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisiau a gweithdrefnau Cydraddoldeb, Ariannol, Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, Adnoddau Dynol ac Iechyd a Diogelwch Prifysgol Metropolitan Caerdydd.



MANYLEB PERSON

Teitl y Swydd: **Darlithydd mewn Awdioleg**

Ysgol/Uned: **Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd
Caerdydd**

* Allwedd

FF - Ffurflen gais

C - Cyfweliad

Cyfl - Cyflwyniad

FFACTORAU	MEINI PRAWF HANFODOL A DYMUNOL	ASESWYD GAN		
		Ff*	C*	Cyfl*
Addysg a Chymwysterau (Hanfodol)	Gradd anrhydedd dda mewn Awdioleg Gwobr ddoethurol a enillwyd neu brofiad proffesiynol cyfatebol. Y gallu i ennill Statws Cymrawd fel rhan o gynllun Cydnabyddiaeth Broffesiynol yr Academi Addysg Uwch, o fewn cyfnod o 3 blynedd.	X X X		
Addysg a Chymwysterau (Dymunol)	Wedi cofrestru gyda'r RCCP neu HCPC Statws Cymrawd fel rhan o gynllun cydnabyddiaeth broffesiynol yr Academi Addysg Uwch.	X X		
Gwybodaeth (Hanfodol)	Lefel dda o wybodaeth sy'n berthnasol i'r pwnc a'r maes proffesiynol. Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Dealltwriaeth gadarn o addysgeg. Dealltwriaeth gadarn o ymchwil/arloesi a gweithgaredd ysgolheigaidd.	X X		X X
Gwybodaeth (Dymunol)	Gwybodaeth arbenigol o faes clinigol penodol Awdioleg (megis Awdioleg Paedatrig, asesu ac adsefydlu Festibwlar).	X		
Sgiliau a Galluoedd sy'n ymwneud â'r rôl (Hanfodol)	Y gallu i ddatblygu rhaglenni addysgu a/neu ymchwil a darparu cymorth dysgu. Y gallu i ddylunio deunydd addysgu a dysgu. Y gallu i ddefnyddio dulliau asesu priodol.		X X X	

	Y gallu i gefnogi datblygiad amcanion, prosiectau neu gynigion ymchwil.		X	
	Y gallu i ddefnyddio dulliau priodol ar gyfer lledaenu canfyddiadau ymchwil.	X	X	
	Y gallu i gyfrannu at gyflawni'r Cynllun Datblygu Ysgol a datblygu gweithgareddau Ysgol eraill.		X	
	Y gallu i gyflawni dyletswyddau gweinyddol mewn modd cywir ac amserol.	X	X	
	Y gallu i gynllunio llwythi gwaith a phrosiectau a rheoli adnoddau'n effeithiol.		X	
	Y gallu i nodi meysydd i'w gwella a defnyddio sgiliau menter a datrys problemau i wella perfformiad.		X	
	Y gallu i gymryd cyfrifoldeb am nifer o feysydd allweddol fel tiwtor modiwl, goruchwyliaeth ymchwil ar lefel israddedig.		X	
	Y gallu i gyfathrebu a lledaenu syniadau cymhleth a chysyniadol mewn amryw o ffyrdd - cyflwyniadau mewn cynadleddau, adroddiadau ar ganfyddiadau, cyhoeddiadau, adborth ac ati.	X	X	
	Y gallu i ddatblygu perthnasoedd gwaith cynhyrchiol fel rhan o dîm proffesiynol.		X	
	Y gallu i weithio ar y cyd ar brosiectau ymchwil trwy ddatblygu partneriaethau priodol.		X	
Sgiliau a Galluoedd sy'n Ymwneud â'r rôl (Dymunol)	Arbenigedd clinigol ym maes clinigol penodol Awdioleg (fel Awdioleg Paedatrïg, asesu vestibular ac adsefydlu).	X		
Profiad â thâl/di-dâl (Hanfodol)	Profiad o addysgu/ymchwil neu gyfwerth.	X	X	
Profiad â thâl/ Di-dâl (Dymunol)	Profiad o addysgu ac ymchwil mewn Addysg Uwch. Profiad o ddenu neu gynhyrchu arian / incwm trwy amrywiaeth o ffynonellau.		X	
Gofynion Eraill (Hanfodol)	Y gallu i ddangos ymrwymiad i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, a Safonau Ansawdd.		X	

Gofynion eraill (Dymunol) Sgiliau Cymraeg	Gwrando, Darllen, Ysgrifennu a Siarad A1 - Dechreuwr Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg.	X		
--	---	---	--	--